
Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
15 Mai 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 376

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Catrin Hughes Roberts	(Pennaeth Partneriaethau) - eitem 4
Ymddiheuriadau:	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)

1. **Datganiadau diddordeb**

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 375 (10.04.14)**

Cymeradwywyd y cofnodion yn gywir.

3. **Materion yn Codi**

Adleoli

[**Crynodeb:** Adroddodd IHJ ar yr ymateb a gafwyd i'r cyhoeddiad Adleoli ymhlith y staff, gan y wasg a gan yr ardaloedd a ymgeisiodd. Roedd am sicrhau fod proses ar waith i gynghori staff ynglŷn â'r camau nesaf. Disgwylir cyhoeddiad gan y BBC yn fuan am ddyfodol Canolfan Llandaf.]

Cyfeiriwyd at y bwriad i greu pwyllgor craffu ar gyfer y broses adleoli. Enwebodd y Cadeirydd JD a MWJ i gynrychioli'r Awdurdod ar y pwyllgor hwn. Cymeradwywyd yr enwebiadau.

Cyfeiriwyd at yr awgrym yn y cyfarfod diwethaf y gellid penodi aelod o'r Awdurdod i fod ar bwyllgor datblygu'r ganolfan newydd. Ar ôl ystyried cylch gorchwyl a natur y pwyllgor hwn, argymhellwyd mai ar y lefel weithredol y dylid cynrychioli S4C arno ac mai GLL fyddai'n gwneud hynny. Cymeradwywyd yr argymhelliad.

4. Sicrhau ariannu digonol:

Ymunodd CHR â'r cyfarfod.

Yn unol â'r penderfyniad yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, roedd gwaith sylweddol wedi'i wneud ar ddogfen drafod fyddai'n cael ei chyhoeddi yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Ar yr un pryd byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno araith ar y pwnc.

[**Crynodeb:** Nid oedd drafft terfynol yn barod ond roedd yn bwysig ceisio sicrhau cefnogaeth yr Awdurdod i'r hyn a fynegir.]

Nododd IHJ fod Eisteddfod yr Urdd yn cynnig ei hun fel llwyfan. Ychwanegodd GLL fod cyfleoedd eraill hefyd, yn llwyfannau cenedlaethol a llwyfannau newyddion digidol a thraddodiadol. Man cychwyn yn y drafodaeth fyddai hyn.

Rhai o'r elfennau pwysig fyddai'n cael eu cynnwys oedd:

- Teledu linear yn dal yn bwysig;
- Defnydd ar-lein yn cynyddu;
- Ystyriaeth o ddisgwyliadau'r gynulleidfa;
- Gwerth economaidd a diwylliannol;
- Technoleg y dyfodol, sut mae'r gynulleidfa yn mynd i wyllo;
- Y Cyfrifiad – y posibilrwydd o gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod a'r cwestiynau sy'n codi o hynny;
- Swyddogaeth fel darlledwr cyhoeddus, yr unig un yn y Gymraeg, yr angen i geisio apelio at bawb;
- Y neges yn glir fod yn rhaid i ni gael ariannu digonol – hynny'n hanfodol, ond bod angen fframio'r neges honno mewn ffordd gadarnhaol.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig fod S4C ar gael ar bob plattform oedd yn un eang ei ddefnydd, gan anelu at gyrraedd y Cymry lle bynnag y maent.

[**Crynodeb:** Cyfeirir at ragolygon yr economi ond y ffactorau allweddol fydd lefel y ffi drwydded a'r gwariant cyhoeddus. Cytunwyd bod angen pwysleisio buddiannau economaidd gweithgarwch S4C e.e. y gwerth ychwanegol roedd S4C yn creu i'r gwyliau cenedlaethol. Serch rhai darluniau ceidwadol o'r arferion gwyllo roedd yr oedran 1-30 yn fwy gobeithiol a neges gadarnhaol i gyfleu am Cyw. Nodwyd un neges sylfaenol sef nad oedd yr opsiwn o beidio darparu gwasanaeth linear yn un ymarferol.]

[**Crynodeb:** Pwysleisir y gwaith modelu manwl sy'n digwydd a nodir pwysigrwydd cytundeb a sefydlogrwydd tymor hir. Rhaid gwarchod annibyniaeth a sicrhau lle priodol i S4C yn nhrefodaeth adnewyddu'r siarter. Penderfynwyd rhannu'r drafft terfynol â'r aelodau gan roi cyfle iddynt fynegi unrhyw sylwadau cyn mynd i'r wasg.]

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddwy sesiwn gyfweld ar gyfer aelodau newydd. Cafwyd ceisiadau da ac roedd yn optimistaidd ynglŷn â'r tebygrwydd o fedru cynnig rhestr gref i'r Ysgrifennydd Gwladol ei hystyried.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Negeseuon corfforaethol S4C

Roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar edrych ar holl negeseuon corfforaethol S4C. Nid oedd bwriad defnyddio Calon Cenedl bellach ac roedd Rhywbeth i Bawb wedi peidio cael ei ddefnyddio ers 2012. Nodwyd bod hefyd angen strapline priodol ar gyfer dysgwyr.

Delwedd newydd

Cafwyd ymateb cadarnhaol cyffredinol i'r ddelwedd newydd gyda rhai sylwadau negyddol am rai o'r idents. Roedd yr aelodau'n gyffredinol yn hapus iawn â'r wedd weledol newydd.

Risgiau Corfforaethol

Nodwyd fod y papur hwn yn un o'r rhai a oedd yn hwyr yn cyrraedd. Gofynnwyd am fwy o amser i'w ystyried a chytunwyd i'w ail-gyflwyno yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Gorffennaf.

Sylw yn y Wasg

[**Crynodeb:** Trafodwyd y sylwadau am berfformiad S4C a ddyfynnwyd yn y wasg. Nodwyd eu bod yn bethau a drafodir yn yr Adroddiad Blynyddol ond roedd y sylw tu allan i ffrâm amser yr adroddiad yn anffodus.]

7. **Adroddiad Blynyddol**

Yn dilyn y drafodaeth am y Datganiad Ariannol yn y Pwyllgor Archwilio, trafodwyd rhai manylion ynglŷn â geiriad y ddogfen gyflawn. Penderfynwyd fod angen nodi o'r cychwyn y ffaith fod y cyfrifon yn adrodd ar gyfnod o 15 mis yn hytrach na blwyddyn y tro hwn. Roedd angen sicrhau cysondeb trwy gyfeirio yn rheolaidd at 2013-14, yn hytrach nag 2013 yn unig.

Nodwyd fod yr asesiad perfformiad yn seiliedig ar yr adroddiad interim a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn Hydref 2013 ac wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cynnwys a ddarledwyd tan ddiwedd Mawrth. Cytunwyd ar y pwyntiau uchod.

8. **Blaenoriaethau Strategol**

O ran y blaenoriaethau strategol, pwysleisiwyd mai datganiad cyffredinol oedd yn cael ei gyflwyno yma ac mai'r bwriad oedd y byddai'r adroddiad yn ei gyfanwydd yn rhoi modd i ystyried a oedd y rhain wedi'u cyflawni ai peidio

9. **Asesiad Perfformiad**

[**Crynodeb:** Trafodwyd y naratif i'w defnyddio i fynegi barn yr Awdurdod am berfformiad cyffredinol y gwasanaeth. Nodwyd rhai gwelliannau i'r ieithwedd.]

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol. Dirprwywyd yr hawl i'r Cadeirydd drafod mân welliannau â'r DCMS.

10. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad gan gyfeirio at nifer o raglenni. Roedd perfformiad rhai yn mynd at wraidd cwestiwn polisi rhaglenni oedd yn ceisio cyflwyno rhywbeth i bawb a lle'r rhaglenni hynny yn yr amserlen. Nodwyd hefyd yr angen i fanteisio ar enwau ein hwynebau cyfarwydd yn nheitlau'r rhaglenni.]

11. **Adroddiad Dadansoddi**

Cyflwynwyd yr adroddiad, a nodwyd y bwriad i sicrhau trafodaeth lawn ar gynnwys yr adroddiad yn chwarterol.

12. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys. Nodwyd a chymeradwywyd y sylwadau ar ddarpariaeth y BBC i S4C.]

13. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM yr Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Mawrth.]

14. **Ymddiriedolaeth y BBC**

Nodwyd y bydd cyfarfod a chinio anffurfiol yn cael ei gynnal ddydd Mercher, 21ain o Fai rhwng aelodau'r Awdurdod ac aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod eu hymweliad â Chaerdydd. Bydd aelodau'r Awdurdod yn mynychu'r cinio gyda chyflwyniad i'r Ymddiriedolwyr ynglŷn â pherfformiad S4C gan y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cynnwys i

ddilyn.

15. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd Masnachol.

16. **Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Nodwyd fod y Datganiad Ariannol am y flwyddyn 2013-14 wedi ei gymeradwyo yn gynharach.

17. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Adroddodd GLL ar y cynlluniau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

17.1 Cyfeiriodd ymhellach at y prosiect Adleoli.

Esboniwyd bod amserlen wedi'i chytuno gyda'r Drindod ar gyfer camau nesaf y prosiect ac y byddai diweddariad am yr amserlen yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

17.2 Aed ymlaen i drafod yr adroddiad oedd yn adolygu a mesur effeithiolrwydd gwaith yr Adran Farchnata. Cytunwyd fod yr adroddiad yn grynodedb gwerthfawr ac y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at elfennau o'r cynnwys mewn cyd-destunau amrywiol yn y dyfodol.

Nododd HJ fod yr adran fasnachol yn datblygu rhai syniadau diddorol iawn ynglŷn â marchnata wedi'i dargedu ac y byddai mwy o wybodaeth am hyn maes o law.

[**Crynodeb:** Wrth drafod nodwyd pwysigrwydd sefydlu ble mae unigolion yn derbyn gwybodaeth am wasanaethau S4C a'r angen i adolygu'r polisi hysbysebu yn barhaol. Mewn sesiwn yn Rhuthun targedwyd gwylwyr ysgafn ac roedd tipyn ohonynt yn defnyddio Clic a'r i-Player ond fflicio rhwng sianeli oedd y dull fwyaf a ddefnyddiwyd i ddarganfod rhaglenni. Roedd yr adran farchnata yn awyddus i gydweithio â'r adran ddadansoddi ar waith pellach yn y maes. Roedd ymateb da i'r gweithgarwch yn Fferm Ffoli ond roedd yn faich trwm ar yr adran farchnata ac angen pwysu a mesur y defnydd o adnoddau'r adran.]

18. **Adroddiad Cwynion**

Nodwyd cynnwys yr adroddiad cwynion.

19. **Papurau'r Awdurdod**

Nodwyd fod nifer o bapurau wedi bod yn hwyr yn cyrraedd yr aelodau ar gyfer y cyfarfod hwn.

Ystyrir y posibilrwydd o ddarparu papurau electroneg. Bydd yr argymhellion yn cael eu trafod gyda'r Tîm Rheoli ac yna'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod.

20. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Iau 12fed o Fehefin 2014